Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Wirfoddol a Reolir Ger y Llan
**St Davids Road**
**Treletert**
**Hwlffordd**
**Sir Benfro**
**SA62 5SL**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2020**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Ger y Llan V.C. School

Mae Ysgol Ger y Llan yn ysgol gynradd sydd dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru. Fe'i lleolir ym mhentref Treletert sydd rhwng Hwlffordd ac Abergwaun yn awdurdod lleol Sir Benfro. Mae 129 o ddisgyblion yn yr ysgol sy'n cynnwys 9 o blant oed meithrin sy'n mynychu'r ysgol yn amser llawn yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Tros dreigl amser, mae tua 14% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn ychydig is na'r ganran genedlaethol, sef 18%. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 27% o'i disygblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig uwch na'r ganran genedlaethol o 21%. Mae tua 9% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref a'r rhan fwyaf ohonynt yn dod o gefndir gwyn Prydeinig.

Arolgywyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2012 a phenodwyd y pennaeth presennol ym Medi 2018.

Nid yw Estyn yn arolygu addysg grefyddol na chynnwys crefyddol addoli ar y cyd pan fydd yr ysgol yn un â chymeriad crefyddol. Yn hytrach, mae'n ofynnol i'r corff llywodraethol, yn ôl y gyfraith, drefnu bod addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn cael eu harolygu ar wahân.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sydd wedi ei seilio ar sicrhau bod lles emosiynol pob disgybl yn gadarn er mwyn iddynt ymroi o'u gorau i'w dysgu. Mae'r siarter ymddygiad ddiweddar yn dechrau cael effaith fuddiol ar agweddau cadarnhaol y disgyblion at eu dysgu. O ganlyniad, mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau mwyafrif y disgyblion.

Mae staff yn sefydlu perthynas waith gynhaliol gyda'r disgyblion, sy'n meithrin amgylchedd cefnogol ar gyfer dysgu. Maent yn ennyn diddrodeb rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus gan roi cyfarwyddiadau clir iddynt ar yr hyn sydd angen ei gyflawni. Fodd bynnag, nid yw medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) wedi eu cynllunio'n ddigon bwriadus i sicrhau bod mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau yn systematig ac adeiladol ar draws y meysydd dysgu.

Mae bron pob disygbl yn groesawus a chwrtais ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, y staff ac ymwelwyr. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn dysgu a chyd-chwarae'n hapus. Mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac maent yn gwrando'n astud, ac yn ymroi i'w dysgu'n llwyddiannus. Mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd cadarn mewn gweithgareddau addas ar draws y meysydd dysgu. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion yn gwneud digon o gynnydd, yn enwedig disgyblion uwch eu gallu.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Codi safonau llafar Cymraeg ar draws yr ysgol

A2 Datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion ar draws yr cwricwlwm

A3 Ehangu medrau arwain yr uwch dîm rheoli er mwyn iddynt ddylanwadu'n fwy effeithiol ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau

A4 Sicrhau bod yr addysgu yn darparu her briodol i'r holl ddisgyblion, yn enwedig rhai uwch eu gallu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Safonau: Digonol ac angen gwella

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rheini ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd cadarn wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Maent yn adalw gwybodaeth flaenorol i gof yn fedrus ac yn datblygu eu medrau yn gyson ar draws ystod briodol o feysydd dysgu.

Yn y ddau gyfnod allweddol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd. Yn y cyfnod sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn berthnasol gan ddangos parch at gyfraniadau eraill. Maent yn awyddus i gynnig atebion a chyfrannu at drafodaethau'n briodol gan drafod pwysigrwydd cadw'r ysgol yn daclus wrth roi sbwriel yn y bin ailgylchu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae lleiafrif y disgyblion yn datblygu geirfa a phatrymau Cymraeg yn briodol, er enghraifft wrth drafod cylchred bywyd gloÿnnod byw. Ar frig yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau llafar Saesneg yn llwyddiannus wrth drafod gweithgareddau gwyddonol. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau llafar Cymraeg yn ddigon cadarn. Mae eu geirfa ymestynnol yn gyfyngedig ac nid ydynt yn datblygu cystrawennau cywir yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, ar lafar, nid ydynt yn datblygu i fod yn ddysgwyr dwyieithog hyderus nac yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau llafar Cymraeg.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cyson wrth ddysgu darllen. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn dangos diddordeb mewn amrywiaeth addas o lyfrau ac yn mwynhau darllen ar goedd, gan wneud hyn yn gynyddol hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn rhugl yn Saesneg, a chyda chywirdeb priodol yn y Gymraeg. Maent yn trafod cynnwys llyfrau'n hyderus, ar y cyfan. Ar frig yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cywain gwybodaeth o ffynonellau amrywiol yn effeithiol, er enghraifft wrth ymchwilio i barciau cenedlaethol Cymru ac Affrica.

Mae medrau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n fedrus yn y cyfnod sylfaen. Maent yn ffurfio llythrennau a geiriau syml trwy amrywiaeth briodol o weithgareddau, er enghraifft wrth ysgrifennu cerdyn Santes Dwynwen. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu'n annibynnol at wahanol bwrpasau ac yn defnyddio brawddegau a geirfa addas er mwyn cyfoethogi eu gwaith, er enghraifft wrth ysgrifennu stori am Jac a'r Goeden Ffa. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus yn y Gymraeg a'r Saesneg yng nghyfnod allweddol 2. Maent yn dangos gafael gadarn ar amrywiaeth eang o ffurfiau ysgrifennu, gan ddangos gafael briodol ar batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi yn y ddwy iaith, ar y cyfan. Enghraifft dda o hyn yw disgyblion yn ysgrifennu erthygl papur newydd am danau yn Awstralia. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion, yn cynnwys disgyblion uwch eu gallu, yn ysgrifennu'n ddigon ymestynnol. O ganlyniad, nid ydynt yn cyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos parch at eu gwaith ac yn ei gyflwyno'n daclus a thestlus mewn llawysgrifen glwm sy'n datblygu'n effeithiol.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu datblygiad mathemategol. Mae ganddynt fedrau rhif cadarn a gafael briodol ar siâp a

data. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn creu cronfa ddata syml o benblwyddi eu cyfoedion ac yn ei defnyddio i gynhyrchu graff bar cywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth am rif yn gyson ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i drafod symiau arian a rhinweddau siapiau. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm, yn enwedig disgyblion uwch eu gallu.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n briodol i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae rhan fwyaf disgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio llechi electronig yn effeithiol, er enghraifft wrth recordio a gwrando ar storïau cyfarwydd. Maent yn hyderus yn defnyddio tegan rhaglenadwy wrth ei symud i wahanol gyfeiriadau er mwyn darganfod siapiau dau ddimensiwn. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd perthnasol. Maent yn defnyddio taenlenni'n effeithiol wrth newid pwysau bwyd llew Fferm Ffoli o unedau imperialaidd i fetrig ac yn defnyddio'r wybodaeth yn berthnasol o fewn eu gwaith rhifedd. Ar frig yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio rhaglenni animeiddio'n llwyddiannus er mwyn creu delweddau o grwbanod yn symud mewn môr o blastig fel rhan o'r thema amgylchedd. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion yn cymhwyso eu medrau TGCh yn ddigon cadarn ar draws y meysydd dysgu.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn groesawus a chwrtais ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, y staff ac ymwelwyr. Mae bron pob disgybl yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn dysgu a chyd-chwarae'n llwyddiannus. Enghraifft dda o hyn yw'r modd mae'r disgyblion hynaf yn ofalus iawn o'r disgyblion ieuengaf ac yn eu cynorthwyo ar y buarth. Maent yn teimlo'n ddiogel o fewn cymuned ofalgar a chynhwysol yr ysgol. Mae disgyblion yn gwybod eu bod yn gallu troi at unrhyw aelod o staff i rannu pryderon pan fo angen a'u bod yn ymateb i'w gofidion yn gadarnhaol.

Mae ymddygiad bron pob un disgybl yn parhau i wella yn y gwersi ac o amgylch yr ysgol yn dilyn datblygu siarter ymddygiad newydd. Maent yn canolbwyntio'n dda ar eu gwaith ac yn cadw ar dasg yn effeithiol am gyfnodau estynedig. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n effeithiol fel unigolion, ac mewn parau a grwpiau. Maent yn barod i ddysgu ar ddechrau gwersi ac yn ymroi'n frwdfrydig i'w tasgau, ac yn medru trafod eu gwaith yn effeithiol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn falch o'r ysgol a'u cymuned leol. Mae bron pob un disgybl yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau; er enghraifft, maent yn plannu cennin Pedr ar dir yr ysgol gydag aelodau'r gymuned. Mae bron pob un disgybl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gwasanaethau, er enghraifft wrth ddathlu 'Sankta Lucia' a chanu carolau Cymraeg, Saesneg a Swedeg yn yr Eglwys Gadeiriol yn Nhŷ Ddewi. Mae'r disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau llafar wrth gymdeithasu gyda thrigolion y pentref trwy fynychu caffi eglwys leol. O ganlyniad i'r profiadau hyn, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u cynefin yn ddeallus ac yn datblygu fel dinasyddion moesol a chydwybodol.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac maent yn deall effaith gadarnhaol ymarfer corff ar eu hiechyd. Maent yn gwneud dewisiadau synhwyrol ynglŷn â'u diet, er enghraifft wrth brynu ffrwythau o'r stondin ffrwythau sy'n cael ei rhedeg gan y disgyblion. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff yn llwyddiannus, gan gynnwys gweithgareddau a drefnir gan y llysgenhadon chwaraeon. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth dda o sut i gadw'n ddiogel ar y we.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau arwain yn gadarn wrth gymryd rhan mewn nifer o bwyllgorau a thimau yn yr ysgol. Mae aelodau'r cynghorau ysgol a'r criw Cymraeg yn cyfrannu'n fuddiol i fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol yn gwario cyllid i brynu offer chwaraeon i'w ddefnyddio yn ystod amseroedd chwarae. Maent yn cynllunio gweithgareddau i godi arian at elusennau lleol a chenedlaethol sy'n meithrin gallu'r disgyblion i feddwl am eraill. Mae disgyblion sy'n aelodau o'r cyngor eco yn datblygu eu rôl yn briodol ac maent yn dechrau cyflwyno a gweithredu ar syniadau newydd, er enghraifft wrth osod biniau ailgylchu yn y dosbarthiadau. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw lleiafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau arwain yn ddigon effeithiol i gael effaith bwrpasol ar benderfynidau ehangach yr ysgol.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o drefniadaeth dosbarth ac yn symud o gwmpas yr ardaloedd amrywiol yn llwyddiannus. Maent yn dechrau dylanwadu a rhannu eu syniadau ar gyfer gweithgareddau yn yr ardaloedd dysgu. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd maent yn eu cael i ddylanwadu ar beth maent yn dymuno ei ddysgu o fewn thema'r tymor. Mae hyn yn eu cymell yn llwyddiannus i ymroi'n llwyr i'r tasgau; er enghraifft, maent yn ymateb yn frwd i sbardunau gweledol er mwyn hyrwyddo gwaith ysgrifenedig.

### Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella

Mae staff yn sefydlu perthynas waith gynhaliol gyda'r disgyblion, sy'n meithrin amgylchedd cefnogol ar gyfer dysgu. Maent yn ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn fedrus gan eu cymell i weithio'n ddiwyd. Mae'r athrawon yn annog y disgyblion i roi o'u gorau gan ddarparu cefnogaeth effeithiol iddynt. Mae'r parch sy'n bodoli rhwng y disgyblion a'r oedolion yn nodwedd arbennig o waith yr ysgol ac yn dechrau cael effaith gadarn ar safonau a lles disgyblion.

Mae'r athrawon yn gosod amcanion dysgu clir i'r disgyblion ac yn eu holi'n effeithiol er mwyn dwyn gwybodaeth flaenorol i gof. Maent yn datblygu eu syniadau'n gadarn wrth eu hannog i gyfrannu'n gyson i'r gweithgareddau dysgu, er enghraifft wrth ddysgu am goedwigoedd yr Amazon. Mae'r athrawon yn rhannu cyfarwyddiadau clir ac yn sicrhau cyflymder addas i'r gweithgareddau. At ei gilydd, mae'r gweithgareddau yn cyfateb yn effeithiol i anghenion mwyafrif y dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel bob tro. O ganlyniad, nid yw lleiafrif y disgyblion yn cyflawni hyd eithaf eu gallu, yn enwedig y disgyblion uwch eu gallu.

Mae darpariaeth y cyfnod sylfaen yn datblygu'n gadarn. Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau yn addas yn yr ardal allanol. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd addas i'r disgyblion ddysgu, gan ddatblygu eu medrau creadigol, er

enghraifft wrth greu cerddoriaeth yn yr ‘ardal safle sŵn’. Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r athrawon yn annog disgyblion i ddatblygu eu medrau creadigol yn effeithiol wrth adeiladau model o dŷ ar gyfer trigolion Ynys Watu. Ar y cyfan, mae’r athrawon yn hyrwyddo dysgu annibynnol y disgyblion yn gadarn. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd digon cyson i fwyafrif y disgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. O ganlyniad, maent yn or-ddibynnol ar gyfarwyddiadau oedolyn ac nid ydynt yn datblygu i fod yn ddysgwyr digon mentrus ac annibynnol.

Mae’r staff addysgu yn hyrwyddo medrau Cymraeg y disgyblion yn fedrus ac yn eu hannog i ddefnyddio’r Gymraeg yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Maent yn cefnogi’r disgyblion yn grefftus ac yn darparu cyfleoedd addas iddynt ddatblygu eu geirfa a chystrawennau Cymraeg. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau diddorol am draddodiadau a hanes Cymru, er enghraifft wrth ddysgu am y Fari Lwyd a Dewi Sant. Mae ymweliadau cyson i leoliadau lleol, er enghraifft i Felin Tregwynt, yn cefnogi’r dysgu ac yn dwysáu dealltwriaeth y disgyblion o’u hetifeddiaeth Gymreig yn effeithiol.

Mae’r staff addysgu yn darparu adborth llafar adeiladol i ran fwyaf y disgyblion gan eu hannog i gymryd cyfrifoldeb i ddatblygu eu gwaith ymhellach. Maent yn sicrhau cyfleoedd priodol i’r disgyblion fyfyrio ar eu dysgu ac maent yn cynnig gwelliannau pwrpasol iddynt. Mae’r athrawon yn annog disgyblion i ymateb i’w gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn gyson er mwyn gwella ansawdd y gwaith. Mae hyn yn dechrau cael effaith ar safonau llawer o ddisgyblion ar draws y meysydd dysgu.

Mae athrawon yn darparu ystod addas o brofiadau dysgu sy’n datblygu medrau disgyblion yn briodol ac, ar y cyfan, yn ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn eu dysgu. Mae’r athrawon yn dechrau sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i’r disgyblion gyfrannu at eu gweithgareddau. Mae hyn yn rhoi’r cyfle i’r disgyblion gymryd perchnogaeth dros eu dysgu yn berthnasol. Fodd bynnag, nid yw’r cynllunio’n sicrhau profiadau cyson ym mhob agwedd o’r cwricwlwm, er enghraifft o fewn gwyddoniaeth a’r dyniaethau.

Mae athrawon yn defnyddio fframweithiau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn briodol yn eu cynllunio er mwyn sicrhau cynnydd a dilyniant yn natblygiad medrau’r disgyblion. Mae’r ysgol wedi dechrau gweithredu’r fframwaith cymhwysedd digidol ac yn dechrau datblygu medrau TGCh y disgyblion yn gadarn. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn llwyddiannus mewn amrywiaeth gyfoethog o weithgareddau dysgu. Nid yw’r cynlluniau yn canolbwyntio’n ddigon manwl ar sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau mewn ffordd sy’n ennyn dilyniant a pharhad yn eu dysgu ar draws y meysydd.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwella

Mae’r ysgol yn darparu amgylchedd ddysgu ofalgar a chefnogol ar gyfer disgyblion. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar eu safonau. Mae datblygu lles emosiynol a chymdeithasol yn flaenoriaeth gan yr ysgol, er enghraifft drwy sefydlu dosbarth cefnogi fel darpariaeth gynhwysol i ddisgyblion penodol. Mae’r ysgol yn hafan ddiogel i bob un disgybl sydd ag awyrgylch gefnogol i’r disgyblion ddysgu. O ganlyniad, o fewn amser byr, mae’r ddarpariaeth hon yn cael effaith gadarnhaol ar les a chynnydd y disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer monitro presenoldeb disgyblion ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol. Mae cysylltiadau cryf yn bodoli rhwng yr ysgol ag asiantaethau a gwasanaethau arbenigol fel y seicolegydd addysg, llefarydd iaith, y nyrs a'r heddlu. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda nhw i gynnig cymorth effeithiol i ddisgyblion a theuluoedd, yn ôl yr angen.

Mae disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn derbyn cymorth effeithiol yn y dosbarth ac mewn grwpiau cefnogi. Mae'r ysgol yn dechrau defnyddio'r gweithdrefnau olrhain a monitro cynnydd grwpiau penodol o ddysgwyr, a gosod targedau ar gyfer pob disgybl yn fwy effeithiol. Mae'r gweithdrefnau hyn yn dechrau cael effaith gadarn ar safonau a lles disgyblion, ac yn cyfrannu'n effeithiol at yr amgylchedd dysgu. Mae nifer o raglenni llythrennedd, rhifedd a lles yn cael eu darparu yn fuddiol i'r disgyblion. O ganlyniad, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn.

O fewn cyfnod byr, mae'r pennaeth newydd wedi sefydlu perthynas waith lwyddiannus iawn gyda rhieni. Maent yn gwerthfawrogi'r gweithdrefnau ardderchog o gyfathrebu sy'n rhoi gwybodaeth werthfawr i rieni am fywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae perthynas effeithiol rhwng yr ysgol a'r rhieni yn sicrhau eu hymrwymiad i addysg eu plant. Mae'r disgyblion a rhieni yn gwerthfawrogi'r fwydlen gwaith cartref newydd y mae'r ysgol wedi ei datblygu trwy osod heriau am y tymor. Mae cyfleoedd buddiol ar gael yn rheolaidd i rieni ddysgu am waith eu plant yn yr ysgol sy'n eu galluogi i gefnogi eu plant ymhellach, er enghraifft y cefnogaeth darllen gartref. Mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth briodol i rieni am gynnydd eu plant ac yn nodi'r camau nesaf yn y dysgu yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol ac ysbrydol disgyblion yn gyson drwy weithgareddau'r cwricwlwm. Mae disygyblion yn trafod agweddau pwysig am y byd yn effeithiol wrth ddisgrifio peryglon newid hinsawdd ar yr amgylchedd. Maent yn perfformio'n gyson wrth gymryd rhan mewn gweithdai lleol, er enghraifft wrth ddawnsio gwerin. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau yn fuddiol. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd a ddarperir i ddisgyblion ddysgu am arferion a diwylliannau pobl mewn gwledydd eraill yn gyfyng.

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, a digwyddiadau chwaraeon a chelfyddydol. Er enghraifft, mae côr yr ysgol yn canu fel rhan o gorws mewn gŵyl gerddoriaeth yn Eglwys Gadeiriol Ty Ddewi. Mae cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o chwaraeon, fel pêl-droed, dawnsio, pêl-rwyd a gymnasteg. Mae'r ysgol yn gwahodd artistiaid amrywiol i gynnal gweithdai gyda'r disgyblion er mwyn datblygu eu medrau creadigol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cael profiadau gwerthfawr wrth gymryd rhan mewn cyngherddau, gwasanaethau ac eisteddfodau lleol o fewn y gymuned. O ganlyniad, maent yn hyderus wrth berfformio o flaen cynulleidfa.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Maent yn deall pwysigrwydd cadw'n heini a byw bywyd iachus. Er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn wedi derbyn hyfforddiant ar sut i gynnal gweithgareddau i'r disgyblion ieuengaf er mwyn datblygu eu ffitrwydd yn bwrpasol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella**

Mae'r pennaeth yn cynnig cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol. Mae ganddi weledigaeth gadarn ar gyfer herio a datblygu'r ysgol sy'n canolbwyntio'n effeithiol ar ethos yr ysgol, darparu addysgu medrus a chodi safonau a lles disgyblion. Mae'r pennaeth yn darparu arweiniad cryf ac yn cydweithio'n llwyddiannus gyda staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni i gyflawni'r weledigaeth hon. Mae'n gosod disgwyliadau uchel ar gyfer disgyblion, staff a llywodraethwyr er mwyn datblygu tîm effeithiol a chyson. Yn ddiweddar, mae cymuned yr ysgol gyfan yn gweithio fel tîm agos er budd yr holl ddisgyblion.

Mae'r pennaeth wedi sefydlu strategaethau addas i fynd i'r afael yn ddiymdroi â diffygion mewn agweddau pwysig ar les disgyblion, y ddarpariaeth a pherfformiad yr ysgol, er enghraifft drwy sefydlu gweithdrefnau penodol i ddatblygu medrau cymdeithasol disgyblion wrth gyflwyno siarter ymddygiad i ddisgyblion sy'n cynnwys rheolau cytûn a ffiniau cadarn. O ganlyniad, mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad ac ymlyniad disgyblion i'w gwaith. Mae'r disgyblion hefyd yn dechrau dangos brwdfrydedd yn eu Cymreictod a phrofi llwyddiant mewn amryw weithgareddau yn y gymuned leol. Mewn amser byr iawn, mae dylanwad y siarteri hyn yn cael effaith bositif ar bron pob un disgybl. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y gweithredu hwn ar safonau disgyblion dros gyfnod mwy estynedig.

Mae cysylltiad da rhwng canfyddiadau'r prosesau hunanwerthuso, sy'n sicrhau bod y cynllun datblygu ysgol, erbyn hyn, yn blaenoriaethu meysydd i'w datblygu yn effeithiol. Mae'r cynllun yn adnadod yr adnoddau sy'n angenrheidiol ac yn cynnwys amserlenni synhwyrol a meini prawf addas i fesur effeithiolrwydd. Mae'r blaenoriaethau synhwyrol sydd yn eu lle yn rhoi pwyslais haeddiannol ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a lles disgyblion. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r gweithdrefnau monitro yn galluogi'r staff i adnabod cryfderau'r ysgol a rhai o'r meysydd ar gyfer gwelliant yn llwyddiannus. Cynhelir cyfarfodydd staff yn gyson ac maent yn rhoi sylw cynyddol i drafod datblygiadau ym mlaenoriaethau'r ysgol a rhai cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau gwella wedi cael digon o amser i gael effaith ar ddatblygu'r ddarpariaeth. Er enghraifft, nid oes cynllunio digon cadarn er mwyn sicrhau datblygiad a pharhad ym medrau disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn, ac erbyn hyn dangosant ymrwymiad llawn i waith a bywyd yr ysgol. Trwy ymweliadau a theithiau dysgu diweddar, mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a'r nifer o feysydd sydd angen eu gwella. Maent yn dechrau gweithredu fel ffrindiau beirniadol effeithiol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi ailstrwythuro cyfrifoldebau'r staff, ac erbyn hyn mae ganddynt swydd ddisgrifiadau clir. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn weithredol ar gyfer datblygu medrau athrawon ymhellach ac yn seiliedig ar flaenoriaethau'r cynllun datblygu. Fodd bynnag, nid yw cyfrifoldebau arwain yr uwch dîm rheoli wedi eu rhannu'n ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid yw'r aelodau hyn yn ddigon atebol am eu cyfrifodlebau er mwyn cael effaith gynaliadwy ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau.

Mae staff yn ddiweddar wedi cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu'n broffesiynol yn unol â'u hanghenion nhw ac anghenion yr ysgol.  Er enghraifft, mae athrawon y cyfnod sylfaen wedi ymweld ag ysgolion eraill i weld arfer dda wrth ddatblygu'r ardal allanol.  Mae'r ysgol yn gweithio'n fedrus gydag ysgolion lleol o fewn ei chlwstwr er mwyn cydweithio a chydgynllunio,  er enghraifft drwy gynnal ymchwil gweithredol ar ddulliau dysgu effeithiol wrth addysgu rhifedd.  O ganlyniad, mae'r staff yn datblygu i fod yn ymarferwyr medrus.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn sicrhau bod y gyllideb a'r grantiau ychwanegol yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau'r ysgol ac mae gwariant yn cael ei ddosbarthu'n ofalus.  Mae'r ysgol yn clustnodi'r grant datblygu disgyblion i wella medrau llythrennedd, rhifedd a lles y disgyblion sy'n gymwys i'w dderbyn.  O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn.  Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau i fodloni anghenion disgyblion.  Mae'r staff yn gwneud y defnydd gorau o safle'r ysgol i greu amgylchedd dysgu symbylus.  Mae cyfraniadau sylweddol a chyson gan Ffrindiau Ger y Llan yn galluogi'r ysgol i brynu, er enghraifft, adnoddau pwrpasol i ddatblygu'r ardaloedd allanol ymhellach.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/03/2020